Rhif: WG37323

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft

**Mehefin 2019**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol XXXXXXXXXXXXXX

# Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn |
| **Trosolwg** | Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft. |
| **Cam gweithredu sy'n ofynnol:** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau pellach am y ddogfen hon at:<br><br>Ymddygiadau Risg (Tybaco, Alcohol a Gamblo)<br>Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>4ydd Llawr, Y Dwyrain<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>Cf10 3NQ<br>PolisiTybaco@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:<br><br>https://llyw.cymru/ymgyngoriadau?_ga=2.105873664.2084199340.1561969237-1341053822.1557741678 |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft<br><br>https://llyw.cymru/rheoliadau-mangreoedd-cherbydau-di-fwg-cymru-2018?_ga=2.34562850.2084199340.1561969237-1341053822.1557741678 |

## Cynnwys

**Crynodeb…………………………………………………….……….tudalen 4**

**Ymatebion………………………………………………….………..tudalen 4**

**Cwestiynau a themâu……………………………….……….tudalen 5**

**Y diffiniad o sylwedddol gaeedig nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig……………………...………………………………tudalen 6**

**Esemptiadau: anheddau……….……………………………tudalen 9**

**Esemptiadau: llety gwyliau neu lety dros dro…….tudalen 12**

**Esemptiadau: cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion……..tudalen 13**

**Esemptiadau: unedau iechyd meddwl……………………………tudalen 16**

**Esemptiadau: gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau……………………………………………………………...tudalen 19**

**Tir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg ……………………………………………..................................tudalen 21**

**Arwyddion Dim ysmygu…………………………………………....tudalen 26**

**Cerbydau di-fwg……………………………………….................tudalen 29**

**Hysbysiadau cosb benodedig……………………………………..tudalen 31**

**Mangreoedd di-fwg ychwanegol…………………………….......tudalen 36**

**Asesiadau effaith……………………………………….................tudalen 37**

## Crynodeb

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau di-fwg (Cymru) 2018 drafft. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn cyflwyno ymateb Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 25 Mai 2018 ac 17 Awst 2018.

Diben yr ymgynghoriad hwn oedd clywed barn ar y Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018 drafft a'u heffaith reoleiddiol ddisgwyliedig.

Y bwriad yw y bydd y Rheoliadau, unwaith y byddant mewn grym, yn gweithredu Pennod 1 o Ran 3 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") sy'n ymestyn y gwaharddiad ar ysmygu i fannau awyr agored ar dir ysbytai, tir yr ysgol, meysydd chwarae cyhoeddus a mannau awyr agored lleoliadau gofal plant cofrestredig. Byddant hefyd yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 2007"), sy'n gweithredu darpariaethau o Ddeddf Iechyd 2006 sy'n gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig, ac yn gwahardd ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo pobl o dan 18 oed.

Mae'r crynodeb o'r ymateb yn darparu cynrychiolaeth ffeithiol o'r ymatebion a dderbyniwyd yn hytrach na barn Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhai a roddodd o'u hamser i gyflwyno eu sylwadau.

## Ymatebion

- Cafwyd cyfanswm o 64 o ymatebion, gan ystod o sefydliadau.
- Dewisodd 16 o ymatebwyr aros yn ddienw.

Tabl 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad gan wahanol fathau o ymatebwyr

| Cod | Math o Sefydliad | Nifer yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| SG | Swyddog gorfodi | 2 |
| SAB | Sector Addysg Bellach | 1 |
| ALl | Awdurdod Lleol | 7 |
| BI | Ysbyty'r GIG | 7 |
| SASC | Sefydliad arall yn y sector cyhoeddus | 2 |
| AR | Arall | 1 |
| GPIC/SASC | Gweithiwr Proffesiynol Iechyd y Cyhoedd/Sefydliad arall yn y sector cyhoeddus | 2 |
| UP | Unigolyn preifat | 23 |
| H | Yr heddlu | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| GC | Grŵp cynrychioliadol | 10 |
| YU | Ysgol Uwchradd | 1 |
| TS | Mudiad trydydd sector | 7 |

## Cwestiynau a themâu

| |
|---|
| **Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno â'r dull cyffredinol a fabwysiadwyd i weithredu'r darpariaethau di-fwg yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017?** |
| Cytuno: 45 Anghytuno: 10 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 3 |

**Cytuno:**

Roedd 78% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull cyffredinol a fabwysiadwyd i weithredu'r darpariaethau di-fwg yn Neddf 2017. (13 IC, 7 BI, 7 ALl, 5 TS, 4 GC, 2 GPIC/SASC, 2 SASC, 2 SG, 1 SAB, 1 AR, 1 YU*).*

O'r ymatebwyr a gytunodd, gwnaeth 25 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Cyfnod monitro ac adolygu'r Rheoliadau.** Er eu bod yn cytuno â'r agwedd gyffredinol, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn pryderu bod y cyfnod adolygu anstatudol o 4 blynedd ar ôl gweithredu'r cynllun yn rhy hir. Os caiff systemau monitro eu safoni ar draws y sectorau perthnasol byddai'n bosibl asesu effeithiolrwydd y Rheoliadau o fewn yr amserlen honno.

**Anghytuno:**

Roedd 17% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r dull cyffredinol a fabwysiadwyd i weithredu'r darpariaethau di-fwg yn Neddf 2017. (9 UP, 1 H).

O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno, gwnaeth 4 sylw. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 5% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â'r dull cyffredinol a fabwysiadwyd i weithredu'r darpariaethau di-fwg yn Neddf 2017. (2 GC, 1 TS).

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 1 sylw. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg.

## Y diffiniad o sylweddol gaeedig a nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig

| **Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu bod y gwelliant arfaethedig i ystyr 'sylweddol gaeedig' yn egluro a ddylai strwythurau eraill sy'n ffurfio perimedr y fangre gael eu cynnwys wrth asesu a yw'r fangre yn 'sylweddol gaeedig' ai peidio? (Rheoliad 3(2))** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 36 | Anghytuno: 13 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 6 |

**Cytuno:**

Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gwelliant arfaethedig i ystyr 'sylweddol gaeedig'. (13 IC, 7 BI, 7 ALI, 4 TS, 2 SASC, 2 GPIC/SASC, 1 SG, 1 SAB, 1 AR, 1 YU*).*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 13 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Mae diffiniadau'n cynnig eglurder.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod gwelliant arfaethedig y diffiniad yn cynnig eglurder. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai canllawiau clir gydag enghreifftiau a diagramau o fudd i helpu i weithredu'r Rheoliadau.
- **Mynedfeydd adeiladau.** Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid ehangu'r diffiniad ymhellach i gynnwys prif fynedfeydd adeiladau.

**Anghytuno:**

Roedd 24% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r gwelliant arfaethedig i ystyr 'sylweddol gaeedig'. (3 GC, 1 SG, 1 ALI, 1 TS).

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 7 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Cael gwared ar yn barhaol neu dros dro.** Dywedodd nifer o awdurdodau lleol fod y geiriad 'naill ai'n barhaol neu dros dro' wedi'i dynnu o'r ystyr a geir yn Rheoliadau 2007, a'u bod yn credu ei bod yn bwysig cadw'r geiriad hwn gan y gellid defnyddio nifer o eitemau i amgáu parth agored fel arall.
- **Isafswm pellter o strwythur arall.** Roedd nifer o awdurdodau lleol o'r farn mai dyma'r amser i reolwyr safleoedd di-fwg osod isafswm pellter o ardaloedd a nodir ar gyfer ysmygu er mwyn rhoi eglurder o ran gorfodi; dylai hyn o bosibl gynnwys cyfeiriad at agosrwydd at ffenestri mae modd eu hagor mewn mangreoedd di-fwg.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 11% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â'r gwelliant arfaethedig i ystyr 'sylweddol gaeedig'. (2 ALI, 1 UP, 1 H, 1 SG, 1 TS).

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Cael gwared ar yn barhaol neu dros dro.** Dywedodd nifer o awdurdodau lleol fod y geiriad 'naill ai'n barhaol neu dros dro' wedi'i dynnu o'r ystyr a geir yn Rheoliadau 2007, a'u bod yn credu ei bod yn bwysig cadw'r geiriad hwn gan y gellid defnyddio nifer o eitemau i amgáu parth agored fel arall.
- **Isafswm pellter o strwythur arall.** Roedd nifer o awdurdodau lleol o'r farn mai dyma'r amser i reolwyr safleoedd osod isafswm pellter o ardaloedd a nodir ar gyfer ysmygu o strwythur arall neu wal cysgodi er mwyn rhoi eglurder o ran gorfodi. Dywedodd ymatebwyr y gallai hyn helpu awdurdodau lleol i ddehongli'r hyn sy'n cael ei ystyried fel bwlch digonol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd y gellid mynd i'r afael â mannau nad ydynt yn rhai di-fwg yn ogystal â ffenestri mae modd eu hagor mewn mannau di-fwg.

**Ymateb y Llywodraeth**

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn gosod gofynion ar gyfer cysgodfeydd ysmygu ond gall rheolwyr mangreoedd di-fwg eu darparu os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rhoddir canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau hyn. Bydd hyn yn cynnwys arfer gorau o ran lleoliad unrhyw gysgodfeydd ysmygu a diagramau i gynnwys amrywiaeth o amgylchiadau, gan gynnwys agosrwydd cysgodfeydd ysmygu at safleoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig. Nid yw'r Rheoliadau drafft yn newid ystyr 'caeedig', sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliadau 2007, sef bod "*mangreoedd yn rhai caeedig os oes ganddynt nenfwd neu do ac, ac eithrio drysau, ffenestri a ffyrdd clir, eu bod wedi'u hamgáu'n gyfan gwbl neu dros dro."* Mae'r Rheoliadau drafft yn diweddaru ystyr 'sylweddol gaeedig' dim ond drwy ychwanegu geiriad at yr ystyr a geir yn Rheoliadau 2007, sef "*mae mangreoedd, neu rannau o fangreoedd, yn sylweddol gaeedig os: oes ganddynt nenfwd neu do; ac unrhyw agoriadau yn y waliau sydd â chyfanswm arwynebedd sy'n llai na hanner arwynebedd y waliau, gan gynnwys strwythurau eraill sy'n gwasanaethu diben y waliau **ac yn ffurfio perimedr y safle**.*"

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n credu bod yr ystyr arfaethedig o 'nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig' yn egluro'r mathau o fangreoedd y byddai ystyr o'r fath yn cyfeirio atynt (er enghraifft, tir ysbytai, tir ysgolion, neu feysydd chwarae cyhoeddus)? (Rheoliad 3(5))**

Cytuno: 33 Anghytuno: 16 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 6

**Cytuno:**

Roedd 60% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ystyr arfaethedig 'nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig' (15 UP, 5 TS, 3 ALI, 3 BI, 2 SASC, 2 GPIC/SASC, 1 SG, 1 AR*).*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 5 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Mae diffiniadau'n cynnig eglurder.** Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod ystyr arfaethedig 'nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig' yn cynnig eglurder i'r mathau o safleoedd y byddai'r ystyr yn berthnasol iddynt, ac y dylai, yn y pen draw, ddiogelu iechyd y cyhoedd ymhellach.

**Anghytuno:**

Roedd 29% o’r ymatebwyr yn anghytuno â’r gwelliant arfaethedig i ystyr ‘nad yw’n gaeedig neu sylweddol gaeedig’. (5 UP, 4 GC, 3 BI, 2 ALl, 1 SG, 1 YU*).*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Geiriad cymhleth.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr er eu bod yn cytuno â'r ystyr arfaethedig, bod y geiriad a ddefnyddir yn rhy gymhleth ac er mwyn helpu pobl i’w ddeall y dylid cynnwys enghreifftiau o strwythurau a bod angen canllaw syml.
- **Cael gwared ar yn barhaol neu dros dro.** Dywedodd nifer o awdurdodau lleol fod y geiriad ‘naill ai'n barhaol neu dros dro’ wedi'i dynnu o'r ystyr ‘sylweddol gaeedig’ a geir yn Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 a’u bod yn credu ei bod yn bwysig cadw'r geiriad hwn gan y gellid defnyddio nifer o eitemau i amgáu parth agored fel arall.
- **Isafswm pellter o strwythur arall.** Roedd nifer o awdurdodau lleol o'r farn mai dyma'r amser i reolwyr safleoedd osod isafswm pellter o ardaloedd a nodir ar gyfer ysmygu er mwyn rhoi eglurder o ran gorfodi. Dywedodd ymatebwyr y gallai hyn helpu awdurdodau lleol i ddehongli'r hyn sy'n cael ei ystyried fel bwlch digonol. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd y gellid mynd i'r afael â mannau nad ydynt yn rhai di-fwg yn ogystal â ffenestri mae modd eu hagor mewn mannau di-fwg.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nododd 11% o’r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno bod ystyr arfaethedig ‘nad yw’n gaeedig neu sylweddol gaeedig’ yn egluro’r mathau o fangreoedd y byddai ystyr o’r fath yn cyfeirio atynt (er enghraifft, tir ysbytai, tir ysgolion, neu feysydd chwarae cyhoeddus)? (2 ALl, 1 BI, 1 UP, 1 H, 1 TS).

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 2 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Geiriad cymhleth.** Dywedodd un ymatebydd fod yr ystyr yn y Rheoliadau arfaethedig yn gymhleth a bod angen canllawiau ychwanegol ar y math o fangre ‘nad yw'n gaeedig neu sylweddol gaeedig’.

**Ymateb y Llywodraeth**

Bydd canllawiau a diagramau clir yn cael eu darparu sy'n cwmpasu amrywiaeth o amgylchiadau gan gynnwys agosrwydd cysgodfeydd ysmygu at safleoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig.

Bydd y Rheoliadau drafft yn gweithredu Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 2017, sy'n cynnwys darpariaethau ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus. Bydd unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol a allai fod yn gaeedig neu sylweddol gaeedig ai peidio yn cael eu nodi mewn rheoliadau pellach a'u diffinio yn unol â hynny.

## Esemptiadau: anheddau

| |
|---|
| **Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i esemptio anheddau sy'n weithleoedd pan fydd yr holl bobl sy'n gweithio yno'n aelodau o'r aelwyd a phan na fydd y cyhoedd yn mynd i'r annedd i gael nwyddau neu wasanaethau? (Rheoliad 4(1)-(5))** |
| Cytuno: 30 Anghytuno: 20 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 6 |

**Cytuno:**

Roedd 51% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i esemptio anheddau sy'n weithleoedd rhag y gofyniad i fod yn ddi-fwg pan fydd yr holl bobl sy'n gweithio yno'n aelodau o'r aelwyd a phan na fydd y cyhoedd yn mynd i'r annedd i gael nwyddau neu wasanaethau. (12 UP, 4 BI, 4 TS, 2 SG, 2 ALl, 1 AR, 1 GPIC/SASC, 1 H, 1 GC, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 10 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Nid oes unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn dod i gysylltiad â'r mwg.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r cynnig oherwydd ni fydd y sefyllfa'n effeithio ar unrhyw aelodau o'r cyhoedd.

**Anghytuno:**

Roedd 33% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i esemptio anheddau sy'n weithleoedd rhag y gofyniad i fod yn ddi-fwg pan fydd yr holl bobl sy'n gweithio yno'n aelodau o'r aelwyd a phan na fydd y cyhoedd yn mynd i'r annedd i gael nwyddau neu wasanaethau. (7 UP, 3 ALl, 3 BI, 2 SASC, 2 GC, 1 SAB, 1 GPIC/SASC)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai gweithleoedd sy'n darparu gwasanaethau i blant fod yn ddi-fwg.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai rhannau o'r annedd lle darperir gwasanaethau gwarchod plant fod yn ddi-fwg drwy'r amser. Gallai dod i gysylltiad â mwg ail-law a thrydedd llaw gael effaith sylweddol ar iechyd plant, gall mwg deithio drwy adeilad hyd yn oed os yw ffenestri ar agor ac felly bydd plant yn dod i gysylltiad ag ef.
- **Amddiffyn gweithwyr.** Dywedodd nifer o fyrddau iechyd fod gan bobl sy'n gweithio hawl i weithio mewn amgylchedd nad yw'n eu rhoi mewn cysylltiad â risgiau i'w hiechyd, o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Os mai annedd ddomestig yw'r gweithle, dylid rhoi'r un warchodaeth ag a roddir i bobl sy'n gweithio mewn gweithleoedd eraill.
- **Dad-normaleiddio ysmygu i blant.** Dywedodd nifer o awdurdodau lleol mai un elfen hanfodol o atal ysmygu yw dad-normaleiddio ysmygu mewn cymunedau, drwy rymuso cenhedlaeth o bobl ifanc i wybod am beryglon ysmygu a'r manteision o fod yn ddi-fwg, a drwy sicrhau bod mannau cyhoeddus, lleoliadau addysgol a gofal plant yn ddi-fwg.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 16% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â’r cynnig i esemptio anheddau sy’n weithleoedd rhag y gofyniad i fod yn ddi-fwg pan fydd yr holl bobl sy’n gweithio yno’n aelodau o’r aelwyd a phan na fydd y cyhoedd yn mynd i’r annedd i gael nwyddau neu wasanaethau. (4 UP, 2 TS, 1 ALl, 1 GC)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 1 sylw. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae adran 7 o Ddeddf 2017 yn nodi mai dim ond y rhannau o anheddau sy'n cael eu defnyddio fel man gwaith sy'n ddi-fwg a hynny dim ond yn ystod y cyfnod a gaiff ei ddefnyddio i’r perwyl hwnnw. Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft yn esemptio anheddau sy'n weithleoedd lle mae'r unig weithwyr yn aelodau o'r aelwyd ac nad oes unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn mynychu i gael nwyddau neu wasanaethau o'r gofynion di-fwg. Mae hyn yn effeithio ar eithrio o’r gofynion di-fwg, er enghraifft, dau neu fwy o bobl sy'n gweithio gartref, ac sydd i gyd yn byw yn yr annedd, a fyddai fel arall yn gweithio mewn swyddfa.

Ni fyddai'r esemptiad hwn yn cynnwys anheddau lle y darperir gwasanaethau gwarchod plant oherwydd byddai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i dderbyn gwasanaethau yno; yn yr achosion hyn byddai'n ofynnol i'r annedd fod yn ddi-fwg yn y rhannau sy'n cael eu defnyddio i ddibenion gwaith (a fyddai'n cynnwys pob rhan o'r annedd y mae gan yr aelod o'r cyhoedd fynediad iddi) am y cyfnod y caiff yr adeilad ei ddefnyddio i’r perwyl hwnnw, yn unol ag adran 7 o Ddeddf 2017).

**Cwestiwn 5:**
**A ydych chi’n cytuno y dylai’r gweithgareddau canlynol gael eu heithrio o’r asesiad o ‘waith’ wrth ystyried a yw annedd yn weithle o dan Adran 7(2) o’r Ddeddf 2017? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ymateb. (Rheoliad 4(7))**

• Darparu gofal personol neu iechyd i unigolyn sy’n byw yn yr annedd.
• Cynorthwyo â gwaith domestig yr aelwyd yn yr annedd.
• Cynnal a chadw strwythur neu adeiladwaith yr annedd.
• Gosod, archwilio, cynnal a chadw neu symud unrhyw wasanaeth a ddarperir i’r annedd er budd y bobl sy’n byw ynddo.

Cytuno: 26 Anghytuno: 15 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 14

**Cytuno:**

Roedd 47% o’r ymatebwyr yn cytuno y dylai’r gweithgareddau a nodwyd gael eu heithrio o’r asesiad o ‘waith’ wrth ystyried a yw annedd yn weithle o dan Adran 7(2) o’r Ddeddf 2017. (14 UP, 4 BI, 2 GPIC/SASC, 2 SG, 1 SAB, 1 ALl, 1 SASC, 1 GC, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oeddent yn cytuno, gwnaeth 8 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Rheoliadau i hyrwyddo amodau di-fwg.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr er eu bod yn cytuno y dylid eithrio'r gweithgareddau a restrir, dylid cyflwyno mesurau i hyrwyddo amodau di-fwg ym mhob cytundeb gwasanaeth rhwng cwsmeriaid a chleientiaid; nod hyn fyddai amddiffyn iechyd, a gofal personol a chymdeithasol staff.

**Anghytuno:**

Roedd 27% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai'r gweithgareddau a nodwyd gael eu heithrio o'r asesiad o 'waith' wrth ystyried a yw annedd yn weithle o dan Adran 7(2) o'r Ddeddf 2017. (5 TS, 4 UP, 2 ALl, 2 BI, 1 GC, 1 AR)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 10 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Amddiffyn gweithwyr mewn annedd.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod gan rywun sy'n gweithio mewn annedd yr hawl i gael ei amddiffyn yn ei weithle, yn union fel y byddai ganddo mewn unrhyw weithle arall. Dylid rhoi cytundebau ar waith i sicrhau bod annedd yn ddi-fwg am y cyfnod y mae'n weithle i unigolyn. Fel arall, bydd gweithwyr mewn perygl o ddod i gysylltiad â mwg ail-law.
- **Heriau gorfodaeth.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn deall yr heriau o ran gorfodi, ond y gellid mynd i'r afael â hyn drwy gytundebau gwasanaeth.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 26% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylai'r gweithgareddau a nodwyd gael eu heithrio o'r asesiad o 'waith' wrth ystyried a yw annedd yn weithle o dan Adran 7(2) o Ddeddf 2017. (5 UP, 3 ALl, 2 GC, 1 ALl, 1 SASC, 1 TS, 1 YU).

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 6 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Amddiffyn gweithwyr mewn annedd.** Dywedodd yr holl ymatebwyr fod gan rywun sy'n gweithio mewn annedd yr hawl i gael ei amddiffyn yn ei weithle, yn union fel y byddai ganddo mewn unrhyw weithle arall. Dylid rhoi cytundebau ar waith i sicrhau bod annedd yn ddi-fwg am y cyfnod y mae'n weithle i unigolyn. Fel arall, bydd gweithwyr mewn perygl o ddod i gysylltiad â mwg ail-law.

**Ymateb y Llywodraeth**

Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn enwedig y sylwadau a ddaeth i law, mae'r Llywodraeth yn ystyried a ddylid dileu'r esemptiad hwn (yn rheoliad 4 (7)).

Byddai hyn yn golygu y byddai annedd yn dod yn weithle o fewn ystyr adran 7 o Ddeddf 2017 tra mae mathau eraill o waith yn cael eu darparu. Yn unol ag adran 7 o Ddeddf 2017, byddai'n ofynnol i'r annedd fod yn ddi-fwg yn y rhannau o'r fangre sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith ac am y cyfnod y caiff ei defnyddio i'r perwyl hwnnw. Byddai canllawiau'n nodi sut y gall darparwyr gwasanaethau sy'n mynychu anheddau helpu i weithredu'r gofyniad di-fwg hwn yn ymarferol.

## Esemptiadau: llety gwyliau neu lety dros dro

| |
|---|
| **Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno na ddylai llety gwyliau hunanarlwyo neu lety dros dro fyth fod yn ddi-fwg? Os nad ydych chi, disgrifiwch y sefyllfa(oedd) lle'r ydych yn credu y dylai llety o'r fath fod yn ddi-fwg. (Rheoliad 5)**<br><br>Cytuno: 15 Anghytuno: 32 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 9 |

**Cytuno:**

Roedd 27% o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylai llety preswyl hunangynhwysol, nad yw'n cynnwys anheddau, **fyth** fod yn ddi-fwg pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau neu lety dros dro. (1 UP, 1 ALl, 1 SASC, 1 H, 1 GC, 1 YU).

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno, gwnaeth 4 sylw. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg.

**Anghytuno:**

Roedd 57% o'r ymatebwyr yn anghytuno na ddylai llety preswyl hunangynhwysol, nad yw'n cynnwys anheddau, **fyth** fod yn ddi-fwg pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau neu lety dros dro. (10 UP, 7 BI, 5 ALl, 3 GC, 3 TS, 1 SG, 1 SAB)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 21 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai pob llety fod yn ddi-fwg.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai llety preswyl hunangynhwysol bob amser fod yn ddi-fwg pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau neu lety dros dro, ac nad yw'r Rheoliadau drafft yn mynd i'r afael â phroblem mwg ail-law a thrydedd llaw y bydd gwesteion yn dod i gysylltiad ag ef os caniateir ysmygu yn y llety. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr hefyd y dylai llety fod yn ddi-fwg bob amser os oes plant yn bresennol.
- **Rhoi dyletswydd ar berchnogion llety.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, os caiff y Rheoliadau drafft eu gweithredu, y dylid ystyried gosod dyletswydd gyfreithiol ar berchnogion i sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i ddarpar westeion/cwsmeriaid nad yw eu llety yn ddi-fwg a'r risgiau y byddant yn agored iddynt. Byddai hyn hefyd yn golygu y gellid cymryd camau gorfodi ar gyfer llety sy'n cael ei ddisgrifio'n anghywir.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 16% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno na ddylai llety preswyl hunangynhwysol, nad yw'n cynnwys anheddau, **fyth** fod yn ddi-fwg pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau neu lety dros dro. (3 TS, 2 UP, 2 ALl, 2 SASC, 1 SG, 1 AR)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 4 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Tystiolaeth gyfyngedig ar yr effeithiau.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr mai ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi effeithiau mwg trydedd llaw. Dylid ystyried ymchwil a thystiolaeth bellach yn ôl yr angen.
- **Mae llety di-fwg yn apelio mwy**. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai llety fod yn ddi-fwg at ddibenion marchnata, gan ddenu mwy o'r farchnad bosibl.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|
| Yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd, mae'r Llywodraeth yn ystyried a ddylai llety preswyl hunangynhwysol, nad yw'n cynnwys anheddau, fod yn ddi-fwg pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau neu lety dros dro mewn rhai amgylchiadau. |

## Esemptiadau: cartrefi gofal i oedolion a hosbisau i oedolion

| **Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno â'r esemptiad sy'n caniatáu i reolwyr cartrefi gofal i oedolion neu hosbisau i oedolion ddynodi ystafell yn y fangre ar gyfer ysmygu? (Rheoliad 6)** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 30 | Anghytuno: 20 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 6 |

**Cytuno:**

Roedd 53% o'r ymatebwyr yn cytuno i gynnwys esemptiad sy'n caniatáu i reolwyr cartrefi gofal i oedolion neu hosbisau i oedolion ddynodi ystafell yn y fangre ar gyfer ysmygu. (16 UP, 2 BI, 2 SG, 2 ALl, 2 GC, 1 TS, 1 SASC, 1 SAB)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 12 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Parhau â'r esemptiad o Reoliadau 2007.** Mae nifer o fyrddau iechyd yn cytuno y dylid parhau i eithrio cartrefi gofal neu hosbisau i oedolion ar y sail yr amod ychwanegol arfaethedig sef y bydd yr ystafell benodedig ar gyfer ysmygu yn cael ei defnyddio gan breswylwyr yn unig.
- **Ystyriaeth i rai nad ydynt yn ysmygu.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y gall mwg ail-law ymledu o un ystafell i'r llall, felly yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig cydnabod hawliau preswylwyr a gweithwyr nad ydynt yn ysmygu a sicrhau y cymerir y camau priodol i amddiffyn y rhai nad ydynt yn ysmygu. Mae hyn yn cynnwys y gallu/hawl sydd gan weithwyr i wrthod mynd i mewn i ystafell ysmygu ddynodedig i ddarparu gofal/gwasanaethau. Dylid adlewyrchu hyn mewn canllaw llym wrth ddynodi ystafell ar gyfer ysmygwyr.
- **Gofynion dynodi.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod angen gofynion llym ar waith i ddiogelu iechyd preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr. Mae angen sefydlu systemau awyru penodol a dim ond preswylwyr y cartref gofal neu'r hosbis i oedolion fydd yn defnyddio'r ystafell ddynodedig .
- **Cynnig cymorth i roi'r gorau iddi.** Dywedodd un Bwrdd Iechyd y dylai canllawiau atodol argymell camau i reolwyr a gweithwyr mewn cartrefi gofal a hosbisau i oedolion eu cymryd i helpu cleifion i roi'r gorau i ysmygu.

**Anghytuno:**

Roedd 36% o'r ymatebwyr yn anghytuno â’r cynnig i gynnwys esemptiad sy’n caniatáu i reolwyr cartrefi gofal i oedolion neu hosbisau i oedolion ddynodi ystafell yn y fangre ar gyfer ysmygu. (6 UP, 4 TS, 3 BI, 3 ALl, 1 SAB, 1 AR, 1 GPIC/SASC, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 12 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Peryglon mwg ail-law.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gall mwg ail-law ymledu o fewn ystafelloedd adeilad. Gallai hyn ddod â phreswylwyr nad ydynt yn ysmygu, staff ac ymwelwyr i gysylltiad â pheryglon iechyd mwg ail-law a thrydedd llaw. Dylai pawb sy'n gweithio yn y lleoliadau hyn gael hawl i weithio mewn amgylchedd nad yw'n eu gwneud yn agored i beryglon iechyd o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- **Mannau ysmygu awyr agored.** Teimlai nifer o’r ymatebwyr na ddylid cael ystafell ddynodedig dan do ar gyfer ysmygu, ond y dylid ystyried ardal awyr agored ar gyfer ysmygu. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod gan nifer o hosbisau i oedolion waharddiadau gwirfoddol ar waith ar hyn o bryd a bod ganddynt fannau awyr agored dynodedig, ac y dylai deddfwriaeth gefnogi'r gwaharddiadau gwirfoddol presennol hyn.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 11% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylid cynnwys esemptiad sy’n caniatáu i reolwyr cartrefi gofal i oedolion neu hosbisau i oedolion ddynodi ystafell yn y fangre ar gyfer ysmygu. (2 ALl, 1 GC, 1 UP, 1 TS).

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Gofynion dynodi.** Dywedodd yr ymatebwyr fod angen gofynion llym ar waith i ddiogelu iechyd preswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr. Mae angen sefydlu systemau awyru penodol a dim ond preswylwyr y cartref gofal neu'r hosbis i oedolion fydd yn defnyddio'r ystafelloedd dynodedig .
- **Anghysonderau o ran dull.** Dywedodd yr ymatebwyr fod posibilrwydd o anghysondeb yn y dulliau arfaethedig ar gyfer cartrefi gofal/hosbisau ac unedau iechyd meddwl i oedolion, ond maent yn credu fod modd cyfiawnhau hyn.
- **Amddiffyn gweithwyr, preswylwyr nad ydynt yn ysmygu.** Teimlai'r ymatebwyr y dylid ystyried amddiffyn preswylwyr a gweithwyr nad ydynt yn ysmygu bob amser.

**Ymateb y Llywodraeth**

Nid yw'r esemptiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cartrefi gofal oedolion neu hosbisau i oedolion ddarparu ystafelloedd ysmygu dynodedig. Fodd bynnag, os byddant yn dewis cynnig ystafell ddynodedig, rhaid i'r ystafell gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn rheoliad 6(3). Mae hyn yn cynnwys y ffaith nad ddylai ystafell ysmygu ddynodedig o'r fath awyru rhannau di-fwg eraill o'r safle, ac mai dim ond y preswylwyr sy'n ei defnyddio. Felly mae'r darpariaethau yn cynnal y status quo yn Rheoliadau 2007 gyda chyfyngiadau ychwanegol ar bwy a gaiff ddefnyddio'r ystafell ddynodedig. Bydd canllawiau'n cynnwys sut y gallai dynodiad o'r fath gael ei ymgorffori i bolisi sefydliadau perthnasol ar ysmygu.

**Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno y dylai ystafell sydd wedi'i dynodi ar gyfer ysmygu mewn cartref gofal i oedolion neu hosbis i oedolion gael ei defnyddio gan breswylwyr yn unig? (Rheoliad 6(2)(a))**

Cytuno: 25 Anghytuno: 21 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 10

**Cytuno:**

Roedd 45% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai ystafell sydd wedi'i dynodi ar gyfer ysmygu mewn cartref gofal i oedolion neu hosbis i oedolion gael ei defnyddio gan breswylwyr yn unig. (9 UP, 5 ALl, 4 BI, 2 TS, 1 SG, 1 SAB, 1 SASC, 1 GPIC/SASC, 1 GC)

O'r ymatebwyr hynny oeddent yn cytuno, gwnaeth 12 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Polisïau'r gweithlu a chontractau cyflogaeth.** Nododd nifer o fyrddau iechyd fod y rheoliad hwn yn cyd-fynd â llawer o bolisïau gweithlu a chontractau cyflogaeth sydd eisoes ar waith sy'n gwahardd staff rhag ysmygu ar y safleoedd hynny.
- **Trigolion yn dod i gysylltiad â mwg ail-law.** Dywedodd un ymatebydd y bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd preswylwyr yn dod i gysylltiad â mwg ail-law os bydd angen iddynt ddod o hyd i aelod o staff sy'n ysmygu.

**Anghytuno:**

Roedd 37% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai ystafell sydd wedi'i dynodi ar gyfer ysmygu mewn cartref gofal i oedolion neu hosbis i oedolion gael ei defnyddio gan breswylwyr yn unig. (10 UP, 3 TS, 2 BI, 1 SG, 1 ALl, 1 GPIC/SASC, 1 H, 1 GC, 1 YU*)*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dod i gysylltiad â mwg ail-law.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y bydd staff yn dal i ddod i gysylltiad â mwg ail-law. Mae'n ddyletswydd ar gyflogwyr i ddarparu amgylchedd gwaith nad yw'n eu gwneud yn agored i beryglon iechyd o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974).
- **Dim ystafelloedd ysmygu dynodedig.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno â dynodi ystafell ysmygu yn gyfan gwbl.
- **Dylai oedolion gael gwneud.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai unrhyw oedolyn gael y dewis i fynd i ystafell ddynodedig ac ysmygu. Teimlai un grŵp cynrychioliadol y dylai staff sy'n gweithio oriau hir gael yr hawl i ddefnyddio'r ystafell ddynodedig.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 18% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylai ystafell sydd wedi'i dynodi ar gyfer ysmygu mewn cartref gofal i oedolion neu hosbis i oedolion gael ei defnyddio gan breswylwyr yn unig. (4 UP, 2 GC, 1 TS, 1 ALl, 1 BI, 1 AR)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 2 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dim ystafell ddynodedig.** Dywedodd ymatebwyr na ddylid caniatáu ystafelloedd dynodedig.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|
| Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi ychwanegu cyfyngiadau ar bwy gaiff ddefnyddio'r ystafell ddynodedig. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 7, nid yw'n ofynnol i reolwyr cartrefi gofal neu hosbisau i oedolion ddynodi ystafell ar gyfer ysmygu ac felly gallant weithredu polisi cwbl ddi-fwg yn eu hadeiladau os ydynt yn dymuno. |

## Esemptiadau: unedau iechyd meddwl

| **Cwestiwn 9: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd ysmygu mewn unedau iechyd meddwl? (Rheoliad 8) ((Noder na fyddai diddymu'r esemptiad yn atal yr unigolyn â gofal o'r fangre rhag dynodi mannau awyr agored fel mannau lle gall cleifion ysmygu).** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 40 | Anghytuno: 15 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 2 |

**Cytuno:**

Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd ysmygu mewn unedau iechyd meddwl. (7 BI, 6 ALl, 10 UP, 5 TS, 4 GC, 1 SG, 1 SAB, 2 SASC, 1 MCA, 2 GPIC, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 16 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Gwaharddiad llawn ar ysmygu y tu mewn.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y rhan fwyaf o unedau iechyd meddwl eisoes yn gweithredu gwaharddiad gwirfoddol ar ysmygu y tu mewn, ac y bydd dileu'r esemptiad hwn yn cynorthwyo mwy o gysondeb di-fwg gan annog ymdrechion i roi'r gorau iddi a dad-normaleiddio ysmygu ar yr un pryd.
- **Dylai'r Rheoliadau fynd ymhellach nag ystafelloedd ysmygu dynodedig.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â dileu'r esemptiad, na ddylai'r Rheoliadau ganiatáu ar gyfer mannau awyr agored dynodedig. Byddai hyn yn cyd-fynd â chanllawiau NICE sy'n argymell rhoi lleoliadau gofal iechyd cwbl ddi-fwg ar waith.
- **Hyrwyddo'r gwasanaeth rhoi'r gorau iddi.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod cyfran uchel o oedolion a chanddynt salwch meddwl yn ysmygu ac yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau rhoi'r gorau iddi. Mae angen rhoi mwy o gymorth i'r unigolion hyn er mwyn eu hannog i roi'r gorau iddi a defnyddio'r gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu sydd ar gael iddynt. Dylid darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â'r unigolion hyn i'w helpu i ddeall y gwasanaethau sydd ar gael i'w cleifion yn well.

**Anghytuno:**

Roedd 26% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i ddiddymu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd ysmygu mewn unedau iechyd meddwl. (11 UP, 1 SG, 1 H, 1 GC, 1 TS).

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Effaith negyddol ar gleifion a staff.** Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai dileu'r esemptiad ar gyfer unedau iechyd meddwl yn cael effeithiau negyddol ar gleifion a staff. Gallai rhoi gormod o bwysau ar gleifion mewn amgylchedd anghyfarwydd arwain at anawsterau ac adferiad mwy cymhleth; nid yw'r ysbyty yn lle da i roi'r gorau iddi a byddai'n rhoi pwysau ar staff goruchwylio.
- **Tir di-fwg.** Dywedodd dau ymatebydd y dylai pob uned iechyd meddwl fod yn ddi-fwg.
- **Mae unedau iechyd meddwl yn fannau preswylio.** Dywedodd dau ymatebydd, yn ystod cyfnod claf mewn uned iechyd meddwl, mai'r uned honno yw ei fan preswylio. Dylid caniatáu i unigolyn ysmygu os yw'n dymuno gwneud hynny yn ei fan preswylio.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

Nid oedd 4% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig i ddiddymu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd ysmygu mewn unedau iechyd meddwl. (1 UP, 1 ALI).

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, ni wnaethpwyd unrhyw sylw.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth o blaid bwrw ymlaen i ddileu'r esemptiad ar gyfer unedau iechyd meddwl y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau 2007 ar hyn o bryd. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pryderon bod angen i unedau iechyd meddwl fod yn gwbl ddi-fwg, deallwn nad yw llawer o safleoedd o'r fath yn darparu ystafell ysmygu ddynodedig ar hyn o bryd a'u bod eisoes yn gweithredu polisïau dim ysmygu. Gall rheolwyr ar dir ysbytai lle y lleolir unedau iechyd meddwl ddynodi ardal ysmygu ar dir yr ysbyty yn unol â rheoliad 11 er mwyn lliniaru'r cyfnod trosiannol i gleifion iechyd meddwl. Fodd bynnag, penderfynir ar ddynodiad o'r fath yn ôl disgresiwn rheolwyr tir ysbytai.

**Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno bod y cyfnod trosiannol arfaethedig o 18 mis ar ôl i'r Rheoliadau 2018 ddod i rym yn ddigon o amser i alluogi unedau iechyd meddwl i weithredu amodau di-fwg dan do mewn ffordd saff a diogel? (Rheoliad 8(6))**

Cytuno: 38 Anghytuno: 11 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 7

**Cytuno:**

Roedd 68% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y cyfnod trosiannol arfaethedig o 18 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym yn ddigon o amser i alluogi unedau iechyd meddwl i weithredu

amodau di-fwg dan do mewn ffordd saff a diogel. (10 UP, 7 BI, 6 ALl, 4 TS, 4 GC, 2 SASC, 2 GPIC, 1 SG, 1 SAB, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 13 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Mae'r cyfnod trosiannol yn ddefnyddiol i fyrddau iechyd roi'r newid ar waith.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cyfnod trosiannol o 18 mis yn ddefnyddiol er mwyn galluogi unedau iechyd meddwl i wneud y newidiadau gan roi cyfle iddynt roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau i gleifion a staff, a'u hyrwyddo. Bydd y newid hwn yn rhoi amser i fyrddau iechyd ddarparu'r hyfforddiant priodol i staff i hyrwyddo gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu a'r Rheoliadau.
- **Defnyddio e-sigaréts mewn rhai lleoliadau.** Dywedodd dau ymatebydd y dylid ystyried caniatáu i gleifion ddefnyddio e-sigaréts i’w helpu i roi'r gorau i ysmygu.
- **Cyfnod trosiannol ar gyfer mannau awyr agored di-fwg.** Dywedodd sefydliad yn y sector cyhoeddus y dylai'r cyfnod trosiannol hwn sydd â chyfyngiad amser hefyd fod yn berthnasol i fannau awyr agored mewn unedau iechyd meddwl sy'n mynd yn ddi-fwg.

**Anghytuno:**

Roedd 20% o’r ymatebwyr yn anghytuno bod y cyfnod trosiannol arfaethedig o 18 mis ar ôl i’r Rheoliadau ddod i rym yn ddigon o amser i alluogi unedau iechyd meddwl i weithredu amodau di-fwg dan do mewn ffordd saff a diogel. (8 UP, 1 TS, 1 SG, 1 H)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 6 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Effaith negyddol ar gleifion a staff.** Teimlai un corff o'r trydydd sector nad yw'r cyfnod trosiannol i gael gwared ar ystafell ysmygu ddynodedig mewn uned iechyd meddwl yn ddigonol ac y byddai'n cael effaith negyddol ar gleifion a staff.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 12% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod y cyfnod trosiannol arfaethedig o 18 mis ar ôl i’r Rheoliadau ddod i rym yn ddigon o amser i alluogi unedau iechyd meddwl i weithredu amodau di-fwg dan do mewn ffordd saff a diogel. (4 UP, 1 GC, 1 TS, 1 AR)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 2 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Ddim yn cytuno â chael gwared.** Dywedodd ymatebwyr nad ydynt yn cytuno â chael gwared ar yr esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd ysmygu.

**Ymateb y Llywodraeth**

Ar sail y sylwadau a ddaeth i law, mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd cyfnod trosiannol o 18 mis yn rhoi digon o amser i unedau iechyd meddwl addasu.

**Cwestiwn 11: A oes unrhyw beth arall a ddylid ei ystyried o ran ysmygu mewn unedau iechyd meddwl preswyl?**

Daeth 27 o sylwadau i law; dyma ddisgrifiad cryno ohonynt:

- **Systemau darparu nicotin electronig (ENDS).** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid ystyried defnyddio ENDS mewn unedau iechyd meddwl fel adnodd i roi'r gorau i ysmygu.
- **Gweithgareddau eraill.** Er mwyn cefnogi amgylcheddau di-fwg effeithiol mewn unedau iechyd meddwl, dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid darparu gweithgareddau eraill i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn brysur a lleihau effeithiau negyddol y gwaharddiad.
- **Ardal awyr agored ddynodedig ddiogel.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid ystyried cael man diogel y tu allan ar gyfer cleifion na allant ddefnyddio'r brif ardal ddynodedig.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r ymatebwyr am y sylwadau hyn a gaiff eu rhannu â byrddau iechyd cyn gweithredu'r polisi hwn.

Nid yw e-sigaréts yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn; mae'r penderfyniad ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mangreoedd di-fwg yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn rheolwr y safle.

## Esemptiadau: gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau

**Cwestiwn 12: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely ysmygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau? (Rheoliad 9)**

Cytuno: 40 Anghytuno: 13 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 4

**Cytuno:**

Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely ysmygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau. (13 UP, 7 ALl, 7 BI, 4 TS, 3 GC, 2 GPIC/SASC, 2 GPIC, 1 SAB, 1 AR*).*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 13 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn y GIG gael ei harddangos ar y safle hwn pan gaiff ei rhoi ar waith.

- **Llety dros dro.** Er eu bod yn cytuno â'r cynnig cyffredinol, dywedodd nifer o’r ymatebwyr fod angen ystyried categoreiddio unigolion sy'n byw mewn llety cyflogaeth dros dro.
- **Amddiffyn gweithwyr lletygarwch.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn diogelu gweithwyr lletygarwch rhag mwg ail-law.

**Anghytuno:**

Roedd 23% o’r ymatebwyr yn anghytuno â’r cynnig i ddiddymu’r esemptiad sy’n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely ysmygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau. (9 UP, 1 SG, 1 H, 1 GC, 1 YU).

O'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno, gwnaeth 5 sylw. Fodd bynnag, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg; roedd y sylwadau'n mynegi eu gwrthwynebiad cyffredinol i'r cynnig.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 7% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â’r cynnig i ddiddymu’r esemptiad sy’n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely ysmygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau. (2 TS, 1 SG, 1 H*).*

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 2 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Anghytuno â gwneud hostelau yn ddi-fwg.** Dywedodd un ymatebydd y dylai hostelau gael eu trin yr un fath â chartrefi gofal a hosbisau i oedolion.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth o blaid bwrw ymlaen i ddileu'r esemptiad sy'n caniatáu dynodi ystafelloedd gwely ar gyfer ysmygu mewn gwestai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn Rheoliadau 2007.

**Cwestiwn 13: A ydych chi’n cytuno bod y cyfnod trosiannol arfaethedig o 12 mis ar ôl i’r Rheoliadau 2018 ddod i rym yn ddigon o amser i westai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau droi eu hystafelloedd gwely ysmygu yn ystafelloedd di-fwg? (Rheoliad 9(5))**

Cytuno: 36 Anghytuno: 14 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 6

**Cytuno:**

Roedd 64% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod trosiannol arfaethedig o 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym. (10 UP, 7 BI, 6 ALl, 5 TS, 3 GC, 2 GPIC/SASC, 2 SASC, 1 SAB*).*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 16 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Mae 12 mis yn ddigon.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y cyfnod pontio yn ddigon i sicrhau bod y Rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith ac y gall safleoedd wneud y newidiadau angenrheidiol. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y dylid annog safleoedd i'w gwblhau ynghynt os yn bosibl.

**Anghytuno:**

Roedd 25% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cyfnod trosiannol arfaethedig o 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym. (10 UP, 1 SG, 1 YU, 1 GC, 1 YU).

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 5 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Mannau dan do i ysmygu.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid caniatáu ysmygu y tu mewn i'r safleoedd hyn.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 11% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â'r cyfnod trosiannol arfaethedig o 12 mis ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym. (3 UP, 1 SG, 1 AR, 1 TS*).*

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 1 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Hyd y cyfnod trosiannol.** Dywedodd un ymatebydd fod y cyfnod trosiannol yn rhy hir.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|
| Ar sail y sylwadau a ddaeth i law, mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd cyfnod trosiannol o 12 mis yn rhoi digon o amser i westai, tai llety, tafarnau, hostelau a chlybiau aelodau addasu. |

## Tir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg

| **Cwestiwn 14: A ydych chi o'r farn bod yr amodau arfaethedig sy'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysgolion â llety preswyl yn briodol? (Rheoliad 10)** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 23 | Anghytuno: 24 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 9 |

**Cytuno:**

Roedd 41% o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr amodau arfaethedig y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysgolion â llety preswyl. (10 UP, 5 ALl, 2 SASC, 2 GC, 2 TS, 1 BI, 1 AR)

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno, gwnaeth 2 sylw. O ganlyniad, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg.

**Anghytuno:**

Roedd 43% o'r ymatebwyr yn anghytuno bod yr amodau arfaethedig y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysgolion â llety preswyl. (10 UP, 5 BI, 2 SASC, 2 SG, 1 SAB, 1 ALl, 1 H, 1 YU, 1 TS)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 12 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai tir ysgolion fod yn ddi-fwg.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai tir ysgolion fod yn ddi-fwg bob amser ac na ddylid caniatáu unrhyw ddynodiad yn y safleoedd hyn. Ni ddylid annog ysmygu mewn lleoliadau addysgol lle mae pobl ifanc yn bresennol a dylid rhoi blaenoriaeth i amddiffyn pobl ifanc rhag y niwed a achosir gan ysmygu.
- **Lle cwbl ddi-fwg.** Roedd un ymatebydd yn teimlo mai dyma'r amser cywir i weithredu mannau cwbl ddi-fwg gan ddefnyddio ffiniau fel ffordd o bennu mannau di-fwg. Roedd yn teimlo y byddai'r ymagwedd gyffredinol hon yn helpu i egluro lle na allwch ysmygu ac yn ddefnyddiol i asiantaethau gorfodi, gan bwysleisio'r newidiadau a gynigir.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 16% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod yr amodau arfaethedig y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysgolion â llety preswyl. (3 TS, 2 GC, 2 UP, 1 ALl, 1 BI)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Tanseilio mannau di-fwg.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod gan y rhan fwyaf o diroedd ysgolion ac ysbytai waharddiadau gwirfoddol di-fwg yn eu lle; gallai'r Rheoliadau arwain at nifer o lochesi ysmygu ar safleoedd na fyddent fel arall ar gael dan y gwaharddiad gwirfoddol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaethau ar gyfer mannau ysmygu dynodedig ar dir ysgolion ond dim ond y rhai sy'n darparu llety preswyl i ddisgyblion. Rhesymeg y Llywodraeth dros gynnig yr opsiwn hwn yw y gallai rheolwyr ysgolion o'r fath fod â rhesymau mae modd eu cyfiawnhau pam mae angen dynodi ardaloedd ysmygu. Er enghraifft, efallai bod yr ysgol yn cael ei defnyddio i gynnal cynadleddau y tu allan i amseroedd y tymor.

Nid yw'n ofynnol bod yn rhaid darparu man ysmygu dynodedig. Fodd bynnag, os yw'r rheolwr yn dewis darparu ardal o'r fath, rhaid iddi gydymffurfio â'r amodau a nodir yn rheoliad 10. Mae'r amodau hyn yn cynnwys y ffaith na chaniateir i bobl o dan 18 oed ddefnyddio'r ardal. Bydd canllawiau'n cynnwys sut y gallai dynodiad o'r fath gael ei ymgorffori i bolisi sefydliadau perthnasol ar ysmygu.

**Cwestiwn 15: A ydych chi o'r farn bod yr amodau arfaethedig sy'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysbytai yn briodol? (Rheoliad 11)**

Cytuno: 26 Anghytuno: 22 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 8

**Cytuno:**

Roedd 47% o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr amodau arfaethedig y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysbytai. (11 UP, 6 ALl, 3 GC, 2 TS, 2 SASC, 1 BI, 1 AR)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 4 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Pwy fydd yn gorfodi.** Roedd nifer o awdurdodau lleol yn cytuno â'r amodau arfaethedig ond yn holi pwy fydd yn gorfodi'r cynnig.

**Anghytuno:**

Roedd 39% o'r ymatebwyr yn anghytuno bod yr amodau arfaethedig y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysbytai. (8 UP, 5 BI, 2 TS, 2 SG, 2 GPIC/SASC, 1 SAB, 1 H, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai holl dir ysbytai fod yn gwbl ddi-fwg.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai holl dir ysbytai fod yn ddi-fwg. Roedd nifer o fyrddau iechyd yn teimlo bod tiroedd di-fwg yn bwysig i sicrhau negeseuon iechyd cadarnhaol ac i atgyfnerthu norm cymdeithasol di-fwg. Byddai ardaloedd dynodedig ar gyfer ysmygu yn herio'r uchelgais hon yn ogystal â'r gwaith o gyflwyno Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco, a gallai danseilio polisïau lleol a bennir gan fyrddau iechyd.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 14% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod yr amodau arfaethedig y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn y gellir dynodi mannau fel mannau lle caniateir ysmygu ar dir ysbytai. (3 UP, 2 TS, 1 ALl, 1 BI, 1 GC)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai tir ysbytai fod yn gwbl ddi-fwg.** Nododd un Bwrdd Iechyd fod ganddo waharddiad di-fwg gwirfoddol ar bob safle ar hyn o bryd, a bod deddfwriaeth newydd yn rhoi cyfle i atgyfnerthu argymhellion a amlinellir mewn polisi lleol, cyflwyno Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco a chanllawiau NICE. Un mater allweddol yw mynd i'r afael â gorfodi gyda diffyg adnoddau; byddai argymhellion a dulliau gweithredu atodol, ar ôl cyfrifo eu costau ac yn seiliedig ar dystiolaeth yn cefnogi'r broses weithredu.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Rheoliadau drafft yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer mannau ysmygu dynodedig ar dir ysbytai. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ddynodi ardal o'r fath. Y sail resymegol sydd gan y Llywodraeth dros gynnig y dewis hwn yw y gall fod gan reolwyr tir ysbytai resymau cyfiawn dros yr angen i ddynodi mannau ysmygu, er enghraifft, er mwyn hwyluso'r newid i unedau iechyd meddwl di-fwg. Petai rheolwyr tir ysbytai yn dewis darparu man ysmygu dynodedig, byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau a nodir yn rheoliad 11. Mae hyn yn cynnwys y gall rheolwyr tir ysbytai bennu pwy all ddefnyddio'r man ysmygu dynodedig, ond efallai na fydd hyn yn cynnwys pobl o dan 18 oed. Bydd canllawiau'n cynnwys sut y gellid ymgorffori dynodiad o'r fath mewn polisïau dim ysmygu.

**Cwestiwn 16: A ydych chi’n cytuno na ddylai’r ddyletswydd i atal ysmygu fod yn gymwys i dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn ôl y Rheoliadau hyn?**

Cytuno: 26 Anghytuno: 18 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 11

**Cytuno:**

Roedd 47% o’r ymatebwyr yn cytuno na ddylai’r ddyletswydd i atal ysmygu fod yn gymwys i dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn ôl y Rheoliadau hyn. (10 UP, 6 BI, 2 SG, 2 GPIC/SASC, 1 ALl, 1 AR, 1 H, 1 GC, 1 YU, 1 TS)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Byddai'n anodd gosod dyletswydd ar reolwyr.** Nododd nifer o fyrddau iechyd y byddai'n anodd gosod dyletswydd ar reolwyr ac ystyried natur eang a gwasgaredig safleoedd. Mae llawer o safleoedd wedi gweithredu gwaharddiad gwirfoddol heb fod angen dyletswydd. Byddai goblygiadau o ran costau i reolwyr na fyddent yn gallu eu bodloni wrth roi'r ddyletswydd hon ar waith.
- **Rhoi gwybod i'r cyhoedd am y newidiadau.** Roedd nifer o’r ymatebwyr yn teimlo bod angen sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig o waharddiadau gwirfoddol i gyfraith cyn iddynt gael eu cyflwyno a'u gweithredu. Mae angen i ymgyrchoedd cyhoeddus helpu i gyflwyno'r negeseuon ynghyd â sesiynau ymwybyddiaeth staff ac arwyddion addas.
- **Cyfrifoldebau ar gyfer rheolwyr.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr y dylai rheolwyr ysbyty ddeall eu cyfrifoldebau o ran sicrhau nad yw eu staff yn ysmygu ar eu safleoedd ac y byddant yn cael hysbysiadau cosb benodedig os ydynt yn ysmygu mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u dynodi.
- **Adolygu/monitro'r broses o weithredu'r gwaharddiad.** Dywedodd nifer o fyrddau iechyd fod adolygiad anstatudol i asesu effeithiolrwydd y gwaharddiad yn cael ei roi ar waith yn gynharach nag ar ôl pedair blynedd.

**Anghytuno:**

Roedd 33% o’r ymatebwyr yn anghytuno **na** ddylai’r ddyletswydd i atal ysmygu fod yn gymwys i dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn ôl y Rheoliadau hyn. (9 UP, 4 ALl, 3 TS, 1 SAB, 1 GC)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 6 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Dylid rhoi dyletswydd ar waith.** Nododd y rhan fwyaf y dylid rhoi'r ddyletswydd ar waith a bod cydymffurfiaeth dan fygythiad heb ddyletswydd o'r fath.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 20% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylai’r ddyletswydd i atal ysmygu fod yn gymwys i dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus yn ôl y Rheoliadau hyn. (2 ALl, 2 SASC, 2 UP, 2 GC, 2 TS, 1 BI)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Dylid rhoi dyletswydd ar waith.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr, er eu bod yn cytuno â'r gwaharddiad ar ysmygu a'u bod yn deall y cymhlethdodau o ran gorfodi, y dylid rhoi’r ddyletswydd ar waith oherwydd heb ddyletswydd o'r fath, bydd cydymffurfiaeth dan fygythiad a bydd yn gosod beichiau afresymol ar awdurdodau lleol.
- **Dulliau gorfodi.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr y bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i ddulliau gorfodi priodol pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a nodwyd bod dull “ysgafn” ac addysg wedi bod yn llwyddiannus.
- **Meysydd chwarae cyhoeddus nad ydynt o fewn ffiniau amlwg.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr y gallai'r mannau di-fwg o fewn 5 metr i gyfarpar chwarae fod yn broblem gydag enghreifftiau nad ydynt o bosibl yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o “gyfarpar chwarae”.
- **Iechyd a diogelwch swyddogion gorfodi.** Dywedodd dau ymatebydd bod disgwyl i swyddogion gorfodi wynebu unigolion er mwyn eu gorfodi i gydymffurfio yn yr ysbyty a'r ysgol yn cyflwyno risgiau/heriau iechyd a diogelwch.

| **Ymateb y Llywodraeth**<br><br>Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi’u hollti, gyda'r byrddau iechyd yn cytuno na ddylai'r ddyletswydd gael ei gweithredu ond roedd timau gorfodi awdurdodau lleol yn anghytuno ac yn nodi y dylid gweithredu'r ddyletswydd i gynorthwyo cydymffurfiaeth.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn parhau i ystyried y mater hwn ac mae'n cynnal trafodaethau pellach gyda byrddau iechyd a thimau gorfodi awdurdodau lleol. |
|---|

## Arwyddion dim ysmygu

| **Cwestiwn 17: A ydych chi'n cytuno â'r gofynion llai a gynigir ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar gyfer mangreoedd caeedig a sylweddol gaeedig? (Rheoliad 12)** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 15 | Anghytuno: 33 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 7 |

**Cytuno:**

Roedd 27% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid llacio'r darpariaethau presennol ar gyfer arwyddion dim ysmygu mewn adeiladau caeedig a sylweddol gaeedig a cherbydau di-fwg. (8 UP, 2 ALl, 2 GC, 1 SG, 1 TS ac 1 SASC)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Mae defnyddwyr yn gwbl ymwybodol o'r gofynion i beidio ag ysmygu mewn safleoedd caeedig a sylweddol gaeedig.** Roedd un ymatebydd o'r farn bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gofynion ers i Reoliadau 2007 gael eu llunio ac nad oes angen arwyddion amlwg mwyach oherwydd lefelau cydymffurfio uchel.

**Anghytuno:**

Roedd 60% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylid llacio'r darpariaethau presennol ar gyfer arwyddion dim ysmygu mewn adeiladau caeedig a sylweddol gaeedig a cherbydau di-fwg. (11 UP, 7 BI, 4 TS, 3 ALl, 3 GC, 2 GPIC/SASC, 1 YU, 1 SAB)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 14 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Graffig arwyddion.** Nododd nifer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig cyffredinol eu bod yn cefnogi'r gofynion graffig arfaethedig ar gyfer arwyddion, sigarét wedi'i goleuo â llinell amlwg drwyddi.
- **Gallai ymlacio o ran maint, lliw a lleoliad arwyddion arwain at ddryswch.** Teimlai nifer o'r ymatebwyr y gallai llacio gofynion arwyddion di-fwg olygu bod rhai aelodau o'r cyhoedd yn methu adnabod yr arwyddion, oherwydd diffyg manylion o ran lleoliad, lliw a maint.
- **Mae'r arwyddion di-fwg presennol yn glir ac yn gryno.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig yn teimlo bod gofynion presennol Rheoliadau 2007 yn glir, yn gryno ac yn gyson ledled Cymru. Mae negeseuon safonol cyfredol yn allweddol o ran gorfodi ac o ran dealltwriaeth y cyhoedd o'r Rheoliadau. Gallai llacio'r darpariaethau presennol arwain at ostyngiad yn y lefel uchel o gydymffurfiaeth. Roedd un sefydliad yn y sector cyhoeddus o'r farn y dylai darpariaethau ar gyfer mannau di-fwg gael eu hategu gan ddulliau mwy eglur a chyffredinol, gan alluogi'r cyhoedd i gymharu'r amrywiol safleoedd di-fwg yn hawdd.
- **Llinell wybodaeth Helpa fi i stopio.** Teimlai un sefydliad yn y sector cyhoeddus y dylai arwyddion cyffredinol safonol gyfeirio at rif gwasanaeth cefnogi rhoi'r gorau i ysmygu y GIG. Byddai hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth o argaeledd, a ffyrdd o gael gafael ar y gwasanaethau.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 13% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylid llacio'r darpariaethau presennol ar gyfer arwyddion dim ysmygu mewn adeiladau caeedig a sylweddol gaeedig a cherbydau di-fwg. (3 UP, 1 TS, 1 H, 1 SASC, 1 AR)

Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau gan yr ymatebwyr hyn.

**Sylwadau eraill:**

- **Dylid ystyried tynnu sylw at ENDS.** Teimlai dau ymatebydd fod angen i arwyddion bellach ystyried y defnydd o systemau darparu nicotin electronig (ENDS).

| **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|
| Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn ac felly mae'r Llywodraeth wedi cynnal trafodaethau pellach gyda thimau gorfodi'r awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd. Mae'r cynigion yn cadw'r elfen ganolog i Reoliadau 2007, sef y graffig dim ysmygu o sigarét wedi'i goleuo mewn cylch â llinell drwyddo. Ni fydd angen diweddaru unrhyw arwyddion ysmygu a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn safleoedd di-fwg caeedig neu sylweddol gaeedig o ganlyniad i'r newid hwn. Nid yw gofynion y graffig dim ysmygu hwn yn cyfateb i'r rhai a gynigir ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar dir ysgolion, tir ysbytai ac mewn meysydd chwarae cyhoeddus a gefnogwyd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cadw'r darpariaethau ar arwyddion dim ysmygu fel y nodir yn y Rheoliadau drafft. |

| **Cwestiwn 18: A ydych chi'n cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus? (Rheoliad 12)** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 33 | Anghytuno: 14 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 9 |

**Cytuno:**

Roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus. (12 UP, 5 BI, 5 ALl, 3 GC, 2 SASC, 1 SG, 1 SAB, 1 TS, 1 YU, 1 AR, 1 GPIC)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 8 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Trosglwyddo o fangreoedd di-fwg gwirfoddol i reoleiddio.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig i'r cyhoedd sylweddoli bod y gwaharddiad gwirfoddol ar ysmygu mewn mannau awyr agored a weithredwyd yn flaenorol wedi trawsnewid i reoliadau newydd a newid yn y gyfraith. Mae arwyddion cyson ledled Cymru gyda gwybodaeth glir a lleoliad amlwg yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cydymffurfio.
- **Arwyddion mewn lleoliadau gofal plant ysbeidiol.** Barn un bwrdd iechyd oedd na fyddai'n afresymol arddangos arwydd 'dim ysmygu pan fydd plant yn bresennol' yn y lleoliadau gofal awyr agored hynny lle mae plant yn cael gofal ysbeidiol ynddynt (fel yr awgrymir yn y ddogfen Ymgynghori). Byddai hyn nid yn unig yn diogelu'r plant

rhag dod i gysylltiad â mwg ail-law, ond hefyd yn annog pobl eraill i beidio ag ysmygu.

**Anghytuno:**

Roedd 25% o’r ymatebwyr yn anghytuno â’r gofynion arfaethedig ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus. (8 UP, 2 BI, 1 ALl, 1 H, 1 SG, 1 SASC)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 6 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Cryfhau'r neges.** Barn un bwrdd iechyd oedd na ddylid llacio'r gofynion ar ôl yr adolygiad 4 blynedd anstatudol. Mae angen cryfhau negeseuon ar y gofynion i sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r Rheoliadau di-fwg newydd.
- **Gorfodaeth a goblygiadau o ran cost.** Teimlai un ymatebydd y byddai llawer o ystadau ledled Cymru yn cael trafferth gorfodi'r Rheoliadau ac ystyried maint rhai ystadau. Mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch y goblygiadau o ran cost i'r byrddau iechyd unigol; byddent o blaid cael arwydd safonol gan y GIG ar gyfer Cymru sy'n cael ei gaffael yn ganolog drwy broses gaffael Cymru gyfan.
- **Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007.** Roedd un ymatebydd o'r farn bod Rheoliadau 2007 yn addas i'r diben ac y byddai'r holl fannau di-fwg caeedig a heb fod yn gaeedig yn elwa ar arwyddion tebyg er mwyn sicrhau cysylltiad clir. Dylid cynnal adolygiad effeithiolrwydd cyn y 4 blynedd arfaethedig.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 16% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno â’r gofynion arfaethedig ar gyfer arwyddion dim ysmygu ar dir ysbytai, tir ysgolion a meysydd chwarae cyhoeddus. (5 TS, 2 UP, 1 ALl, 1 GC)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Arddangos arwyddion yn y prif fynedfeydd neu gerllaw.** Mynegodd nifer o’r ymatebwyr bryder ynglŷn ag amwysedd posibl o ran safleoedd â mwy nag un fynedfa, a mynegwyd pryder ynghylch y goblygiadau cost ychwanegol ar gyfer nifer y prif fynedfeydd y byddai’n rhaid cael arwyddion ar eu cyfer.
- **Gofynion adolygu ar ôl 4 blynedd.** Er ei fod yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol, roedd un ymatebydd yn poeni am lacio'r gofynion am arwyddion yn dilyn yr adolygiad 4 blynedd.
- **Safleoedd sy'n cael eu defnyddio yn ysbeidiol yn unig neu'n cael eu rhannu â safleoedd eraill.** Barn un o'r ymatebwyr oedd y dylai fod yn ofynnol cael arwyddion bob amser yn y mannau hyn lle gall plant ac oedolion sy'n agored i niwed gael mynediad iddynt ar unrhyw adeg.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
| --- |
| Mae'r Llywodraeth o blaid cadw'r gofynion fel y cânt eu nodi yn y Rheoliadau drafft. Nod y darpariaethau hyn yw caniatáu, cyn belled ag sy'n bosibl, i'r arwyddion presennol sy'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaharddiadau gwirfoddol presennol barhau i gael eu defnyddio, ar yr amod bod yr arwyddion yn cael eu haddasu i gynnwys y rhybudd ysgrifenedig. Dylai'r dull hwn arwain at leihau costau gweithredu ar gyfer byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Bydd y canllawiau'n rhoi enghreifftiau o arwyddion sy'n cydymffurfio ac yn egluro y gall byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ddarparu arwyddion sy'n fwy na'r gofynion hyn os ydynt yn dymuno gwneud hynny (er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth am hysbysiadau cosb benodedig). Ni fyddai unrhyw addasiadau i'r gofyniad i gael arwyddion dim ysmygu yn cael eu gwneud yn y dyfodol oni bai ei bod yn glir yn yr adolygiad 4 blynedd nad yw'n statudol bod y gwaharddiad ar ysmygu yn cael ei gynnal yn y lleoliadau hyn. |

## Cerbydau di-fwg

| **Cwestiwn 19: A ydych chi'n cytuno y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig i ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cludo unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall sydd hefyd yn y cerbyd? (Rheoliad 14(3)(a))** | | |
| --- | --- | --- |
| Cytuno: 35 | Anghytuno: 15 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 5 |

**Cytuno:**

Roedd 64% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig i ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol wrth gludo unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall sydd hefyd yn y cerbyd. (11 UP, 7 BI, 6 ALl, 3 TS, 3 ALl, 2 SASC, 2 GPIC/SASC, 1 SAB)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 10 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Lleihau dod i gysylltiad â mwg ail-law.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio at ddibenion gwaith neu wirfoddol wrth gludo unigolyn arall gan y bydd yn lleihau cysylltiad â mwg ail-law, wrth barhau i ganiatáu i unigolion ysmygu yn eu cerbydau eu hunain pan nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion gwaith.

**Anghytuno:**

Roedd 27% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig at ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cludo unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall sydd hefyd yn y cerbyd. (10 UP, 1 SG, 1 H, 1 GC, 1 YU, 1 TS)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 4 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Unigolyn dros 18 yn y cerbyd.** Dywedodd un ymatebydd os yw'r unigolyn yn y cerbyd dros 18 oed, ni ddylai'r cerbyd gael ei ddynodi'n un di-fwg.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 9% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig at ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cludo unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall sydd hefyd yn y cerbyd. (2 TS, 1 SG, 1 ALl, 1 H)

Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau gan yr ymatebwyr hyn.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|
| Ar sail y sylwadau a ddaeth i law, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai cerbydau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn llwyr neu'n bennaf i ddibenion gwaith fod yn ddi-fwg pan gânt eu defnyddio gan un unigolyn yn unig at ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol wrth gludo rhywun sy'n derbyn nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall hefyd yn y cerbyd. Er enghraifft, byddai'n rhaid i gerbyd o'r fath a ddefnyddir gan warchodwr plant fod yn ddi-fwg pan gaiff ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaethau gwarchod plant hynny, gan gynnwys mynd â phlant i'r ysgol ac yn ôl; byddai'n rhaid i gerbyd a ddefnyddir yn rhan-amser i ddarparu gwasanaethau tacsi fod yn ddi-fwg wrth gael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw. Ni fyddai'n ofynnol i'r cerbyd, pan gaiff ei ddefnyddio i ddibenion preifat, cymdeithasol neu ddomestig, fod yn ddi-fwg oni bai ei fod yn cludo unigolyn o dan 18 oed ac felly'n dod o dan reoliad 14(3)(b). |

| **Cwestiwn 20: A ydych chi'n cytuno y dylai cerbydau sy'n cael ei ddefnyddio gan un unigolyn yn unig i ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol tra'n cludo unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall sydd hefyd yn y cerbyd fod yn ddi-fwg pan fydd yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw'n unig? (Rheoliad 14(5)):** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 23 | Anghytuno: 24 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 7 |

**Cytuno:**

Roedd 43% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig i ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol wrth gludo rhywun sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall hefyd yn y cerbyd fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw yn unig. (6 BI, 5 UP, 4 ALl, 4 GC, 2 TS, 1 SASC, 1 GPIC/SASC*).*

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 10 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai cerbydau fod yn ddi-fwg i ddibenion gwaith.** Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n adlewyrchu'r ffaith bod ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn.

**Anghytuno:**

Roedd 44% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig i ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol wrth gludo rhywun sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall hefyd yn y cerbyd fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw yn unig. (16 UP, 1 SG, 1 SAB, 1 ALl, 1 BI, 1 GPIC/SASC, 1 H, 1 YU, 1 TS).

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 6 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Dylai cerbydau gwaith fod yn ddi-fwg bob amser.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai cerbydau gwaith fod yn ddi-fwg bob amser gan fod perygl o fwg ail-law o hyd.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 13% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno y dylai cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan un unigolyn yn unig i ddibenion gwaith cyflogedig neu wirfoddol wrth gludo rhywun sy'n cael nwyddau neu wasanaethau gan unigolyn arall hefyd yn y cerbyd fod yn ddi-fwg pan fyddant yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw yn unig. (3 TS, 1 SG 1 ALl, 1 SASC, 1 UP*).*

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 2 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Gwahaniaethu rhwng gwaith cyflogedig a gwaith gwirfoddol.** Dywedodd yr ymatebwyr y dylid cael dull gweithredu cyson ar gyfer staff cyflogedig ac y dylai'r Rheoliadau wahaniaethu rhwng gwaith cyflogedig a gwirfoddol yn hytrach na bod yn ddi-fwg ran o'r amser. Dylai gwirfoddolwyr sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain gael eu heithrio.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
|---|
| Mae'r Llywodraeth o blaid cadw'r darpariaethau fel y cânt eu nodi yn y Rheoliadau drafft. Gweler yr ymateb i gwestiwn 19 |

## Symiau cosb benodedig

| **Cwestiwn 21: A ydych chi'n cytuno bod swm y gosb benodedig (£200) a'r swm gostyngol (£150) am y drosedd o fethu â darparu arwyddion di-fwg sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodedig yn briodol ac yn gymesur? (Rheoliadau 19(a) ac 20(a))** | | |
|---|---|---|
| Cytuno: 34 | Anghytuno: 13 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 7 |

**Cytuno:**

Roedd 63% o'r ymatebwyr yn cytuno bod swm y gosb benodedig (£200) a'r swm gostyngol (£150) am y drosedd o fethu darparu arwyddion di-fwg sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodedig yn briodol ac yn gymesur. (10 UP, 6 ALl, 5 TS, 3 GC, 3 BI, 2 SG, 2 SASC, 2 PHP, 1 SAB)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 9 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Mae'r symiau’n briodol ac yn gymesur.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y symiau cosb benodedig yn briodol, yn gymesur ac yn unol â symiau eraill o gosbau penodedig.
- **Ymrwymiadau llac gan y Llywodraeth.** Roedd un ymatebydd yn cytuno y gallai unrhyw leihad yn swm y gosb gael ei ystyried fel arwydd bod y Llywodraeth yn llacio'r ymdrechion i greu Cymru ddi-fwg.
- **Gofynion o ran arwyddion.** Teimlai un ymatebydd, er ei fod yn cytuno â'r cynnig, bod angen eglurhad pellach ar y gofynion o ran arwyddion.
- **Diwygiadau i'r niferoedd yn y dyfodol.** Dywedodd un ymatebydd y gallai fod angen diwygiadau i'r Rheoliadau yn y dyfodol ac y gallai'r dull arfaethedig fod yn rhy feichus. Awgrymodd fod y drosedd yn cael ei chynnwys yn Lefel 1 ar y raddfa safonol o ddirwyon yn lle hynny.

**Anghytuno:**

Roedd 24% o’r ymatebwyr yn anghytuno bod swm y gosb benodedig (£200) a’r swm gostyngol (£150) am y drosedd o fethu darparu arwyddion di-fwg sy’n cydymffurfio â’r gofynion penodedig yn briodol ac yn gymesur. (11 UP, 1 H, 1 GC, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 5 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Mae symiau’r gosb benodedig yn rhy isel.** Roedd un ymatebydd yn teimlo bod y gosb benodedig arfaethedig yn rhy isel.
- **Hysbysiadau trosedd gyntaf.** Dywedodd un ymatebydd fod y symiau arfaethedig yn rhy uchel ar gyfer y drosedd gyntaf. Mae rhybudd llafar neu ysgrifenedig yn ddigonol a dylid rhoi cyfnod penodol o amser i'r troseddwr arddangos yr arwyddion angenrheidiol.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 13% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod swm y gosb benodedig (£200) a’r swm gostyngol (£150) am y drosedd o fethu darparu arwyddion di-fwg sy’n cydymffurfio â’r gofynion penodedig yn briodol ac yn gymesur. (4 BI, 1 ALl, 1 TS, 1 H)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 4 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Sicrhau bod y symiau’n briodol ac yn gymesur.** Dywedodd nifer o fyrddau iechyd nad oedd ganddynt farn bendant am swm y gosb cyn belled â'i bod yn gymesur ac yn gyson â throseddau tebyg.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi cynnal y symiau ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig sy'n ymwneud â'r drosedd o fethu darparu arwyddion dim ysmygu sy'n bodloni'r

gofynion penodol a bennwyd gan y Rheoliadau drafft arfaethedig. Mae'r Llywodraeth felly yn bwriadu cadw'r darpariaethau fel y cânt eu cynnwys yn y Rheoliadau drafft.

**Cwestiwn 22: A ydych chi’n cytuno bod y swm y gosb benodedig (£50) a’r swm gostyngol (£30) am y drosedd o ysmygu mewn mangreoedd di-fwg yn briodol ac yn gymesur? (Rheoliadau 19(b) ac 20(b))**

Cytuno: 23 Anghytuno: 24 Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 6

**Cytuno:**

Roedd 44% o’r ymatebwyr yn cytuno bod y swm y gosb benodedig (£50) a’r swm gostyngol (£30) am y drosedd o ysmygu mewn mangreoedd di-fwg yn briodol ac yn gymesur. (8 UP, 4 SASC, 4 ALl, 3 BI, 2 TS, 1 SG, 1 YU)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 5 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Mae'r symiau’n briodol ac yn gymesur.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr fod y cosbau penodedig yn briodol ac yn rhesymol o'u cymharu â symiau cosbau am droseddau tebyg.
- **Gorfodi hysbysiadau cosb benodedig.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr eu bod yn cytuno â'r symiau cyn belled â'u bod yn cael eu gorfodi heb unrhyw eithriadau.
- **Diwygiadau i'r niferoedd yn y dyfodol.** Dywedodd un ymatebydd y gallai fod angen diwygiadau i'r Rheoliadau yn y dyfodol ac y gallai'r dull arfaethedig fod yn rhy feichus. Awgrymodd fod y drosedd yn cael ei chynnwys yn Lefel 1 ar y raddfa safonol o ddirwyon yn lle hynny.

**Anghytuno:**

Roedd 45% o’r ymatebwyr yn anghytuno bod swm y gosb benodedig (£50) a’r swm gostyngol (£30) am y drosedd o ysmygu mewn mangreoedd di-fwg yn briodol ac yn gymesur. (13 UP, 3 TS, 2 ALl, 2 GC, 1 SG, 1 SAB, 1 BI, 1 H)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 15 sylwadau; dyma’r sylwadau cryno:

- **Mae symiau’r hysbysiadau cosb yn rhy isel.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y gosb benodedig arfaethedig a'r swm gostyngol yn rhy isel ac y dylai gyd-fynd â hysbysiadau cosb benodedig eraill y gellir eu cymharu (e.e. arwyddion di-fwg a thaflu sbwriel).
- **Hysbysiadau trosedd gyntaf.** Dywedodd un ymatebydd fod rhybudd llafar neu rybudd ysgrifenedig yn ddigon am drosedd gyntaf. Dylai'r penderfyniad i roi rhybudd llafar neu ysgrifenedig, neu i bennu cosb benodedig, fod yn fater i'r swyddog ymchwilio.
- **Gorfodi hysbysiadau cosb benodedig.** Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod yn hollbwysig nad yw'r gwaith gorfodi a chyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig yn cael ei wneud gan gwmnïau preifat.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 11% o’r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod y swm y gosb benodedig (£50) a’r swm gostyngol (£30) am y drosedd o ysmygu mewn mangreoedd di-fwg yn briodol ac yn gymesur. (3 BI, 2 GC, 1 TS)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 5 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Sicrhau bod y symiau'n briodol ac yn gymesur.** Dywedodd nifer o fyrddau iechyd nad oedd ganddynt farn bendant am swm y gosb cyn belled â'i bod yn gymesur ac yn gyson â throseddau tebyg.
- **Mae symiau'r hysbysiadau cosb yn rhy isel.** Dywedodd dau ymatebydd y dylid cynyddu'r hysbysiadau cosb benodedig.

| **Ymateb y Llywodraeth** |
| --- |
| Mae'r Llywodraeth yn nodi bod nifer o'r ymatebwyr wedi tynnu sylw at y gwahaniaeth yn y symiau cosb rhwng troseddau di-fwg a throseddau eraill yn erbyn niwsans cyhoeddus megis baw cŵn a thaflu sbwriel. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnal trafodaethau pellach gydag awdurdodau lleol. |

| **Cwestiwn 23: A ydych chi'n cytuno bod y swm y gosb benodedig (£50) a'r swm gostyngol (£30) am y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn cerbyd preifat di-fwg sy'n cludo unigolyn / unigolion o dan 18 oed yn briodol ac yn gymesur? (Rheoliadau 19(c) ac 20(c))** | | |
| --- | --- | --- |
| Cytuno: 18 | Anghytuno: 27 | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 10 |

**Cytuno:**

Roedd 33% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y swm y gosb benodedig (£50) a'r swm gostyngol (£30) am y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn cerbyd preifat di-fwg sy'n cludo unigolyn / unigolion o dan 18 oed yn briodol ac yn gymesur. (6 UP, 4 SASC, 3 BI, 2 TS, 1 ALl, 1 SG)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn cytuno, gwnaeth 3 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Mae'r symiau'n briodol ac yn gymesur.** Dywedodd un ymatebydd fod y cosbau penodedig yn briodol ac yn rhesymol o'u cymharu â symiau cosbau am droseddau tebyg.
- **Mae symiau'r hysbysiadau cosb yn rhy isel.** Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r gosb benodedig arfaethedig fod yn uwch nag ar gyfer ysmygu mewn mangreoedd di-fwg oherwydd risgiau uniongyrchol i unigolyn ifanc.
- **Diwygiadau i'r niferoedd yn y dyfodol.** Dywedodd un ymatebydd y gallai fod angen diwygiadau i'r Rheoliadau yn y dyfodol ac y gallai'r dull arfaethedig fod yn rhy feichus. Awgrymodd fod y drosedd yn cael ei chynnwys yn Lefel 1 ar y raddfa safonol o ddirwyon yn lle hynny.

**Anghytuno:**

Roedd 49% o'r ymatebwyr yn anghytuno bod y swm y gosb benodedig (£50) a'r swm gostyngol (£30) am y drosedd o fethu atal ysmygu mewn cerbyd preifat di-fwg sy'n cludo unigolyn / unigolion o dan 18 oed yn briodol ac yn gymesur. (16 UP, 3 ALl, 3 TS, 1 SG, 1 SAB, 1 H, 1 YU, 1 GC)

O'r ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno, gwnaeth 15 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Mae symiau'r hysbysiadau cosb yn rhy isel.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y gosb benodedig arfaethedig a'r swm gostyngol yn rhy isel ac y dylai gyd-fynd/bod yn gyson â symiau eraill o hysbysiadau cosb benodedig fel arwyddion di-fwg a sbwriel.
- **Hysbysiadau cosb benodedig na ellir eu gorfodi.** Roedd un ymatebydd yn teimlo na fyddai modd gorfodi'r hysbysiad cosb benodedig.
- **Cysylltiad â lefelau uchel o fwg ail-law.** Teimlai un ymatebydd y gellid dadlau bod torri'r rheoliad arfaethedig yn fwy difrifol, gan y gall mwg ail-law gyrraedd lefelau uchel iawn y tu mewn i geir. Bydd plant yn dod i gysylltiad â lefelau uchel o fwg.

**Ddim yn cytuno nac yn anghytuno:**

Nid oedd 18% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod swm y gosb benodedig (£50) a'r swm gostyngol (£30) am y drosedd o fethu atal ysmygu mewn cerbyd preifat di-fwg sy'n cludo unigolyn / unigolion o dan 18 oed yn briodol ac yn gymesur. (4 BI, 3 GC, 2 ALl, 1 TS)

O'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, gwnaeth 5 sylwadau; dyma'r sylwadau cryno:

- **Sicrhau bod y symiau'n briodol ac yn gymesur.** Dywedodd nifer o fyrddau iechyd nad oedd ganddynt farn bendant am swm y gosb cyn belled â'i bod yn gymesur ac yn gyson â throseddau tebyg.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r hysbysiad cosb benodedig hwn (FPN) yn ymwneud yn benodol â'r drosedd o ysmygu mewn cerbyd preifat tra mae unigolyn o dan 18 oed yn bresennol. Mae sawl ymatebydd wedi sôn am y gwahaniaeth rhwng swm yr FPN hwn a symiau FPN niwsans cyhoeddus eraill. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnal trafodaethau pellach gydag awdurdodau lleol.

## Mangreoedd di-fwg ychwanegol

| |
|---|
| **Cwestiwn 24: Nid oes cynigion ar hyn o bryd ar gyfer mangreoedd di-fwg ychwanegol; fodd bynnag, rydym yn croesawu sylwadau ar y mathau o fangreoedd y gellid eu hystyried mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol er mwyn symud tuag at yr uchelgais o Gymru ddi-fwg.** |

Daeth 28 o sylwadau i law; dyma ddisgrifiad cryno ohonynt:

- **Ardaloedd awyr agored tafarnau, bwytai a chaffis.** Dywedodd chwe ymatebydd y dylai ardaloedd y tu allan i dafarnau, bwytai a chaffis gael ardaloedd dynodedig ar wahân ar gyfer ysmygu neu fod yn ddi-fwg yn gyfan gwbl.
- **Dyma'r ardaloedd eraill a restrwyd gan yr ymatebwyr fel mathau o fangreoedd y dylid eu hystyried yn rhai di-fwg:**
  Tai cymdeithasol
  Llety addysg uwch a llety myfyrwyr
  Parciau thema a sŵau
  Giatiau'r ysgol
  Arosfannau bysiau a gorsafoedd rheilffordd
  Y tu allan i siopau
  Pob mangre gyhoeddus neu fangre a ddefnyddir gan blant
  Llety hunan-arlwyo
  Canolfannau hamdden, clybiau chwaraeon a meysydd chwarae
  Traethau

| |
|---|
| **Ymateb y Llywodraeth**<br><br>Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r ymatebwyr am eu hawgrymiadau a fydd yn cael eu defnyddio i lywio ymgynghoriadau yn y dyfodol ar symud tuag at yr uchelgais o Gymru ddi-fwg. |

## Unrhyw faterion eraill

| |
|---|
| **Cwestiwn 25: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, nodwch nhw yma.** |

Daeth 23 o sylwadau i law; dyma ddisgrifiad cryno ohonynt:

- **Gorfodi.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y bydd goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau i awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth orfodi'r Rheoliadau.
- **Lleoliad ac agosrwydd.** Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylai'r ardal o fewn pellter penodol o fynedfa adeilad fod yn ddi-fwg i amddiffyn y rhai sy'n cyrraedd ac yn gadael. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y dylid cael isafswm pellter oddi wrth unrhyw wal ar gyfer cysgodfa ysmygu.

- **Systemau darparu nicotin electronig (ENDS).** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr nad oes sôn am ENDS. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn cefnogi ENDS fel ffordd o roi'r gorau i ysmygu pan nad yw opsiynau eraill wedi gweithio.
- **Sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu.** Dywedodd un ymatebydd fod angen darparu digon o gynwysyddion ar gyfer cael gwared ar sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu mewn modd cyfrifol.
- **Gwerthuso'r Rheoliadau.** Dywedodd un ymatebydd fod angen cynnal gwerthusiad sylfaenol er mwyn monitro a gwerthuso'r rheoliadau newydd i'r eithaf. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r broses o weithredu'r Rheoliadau a'u heffaith.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r ymatebwyr am eu hawgrymiadau, fydd yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau hyn.

## Asesu Effeithiau

**Cwestiwn 26: A ydych chi’n ymwybodol o unrhyw heriau neu effeithiau positif o ganlyniad i’r rheoliadau arfaethedig yr ydych yn credu sydd heb eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy’n benodol i faes eich diddordeb chi?**

O'r 8 ymatebydd a wnaeth sylwadau, ni ddaeth unrhyw thema gyffredinol i'r amlwg.

**Cwestiwn 27: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr asesiadau effaith drafft ar gyfer yr Iaith Gymraeg, Hawliau Plant, neu Gydraddoldeb a Hawliau Dynol? Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhagnodi nodweddion gwarchodedig sy’n cynnwys rhywedd; oedran; crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; trawsrywioldeb; priodas neu bartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; ac anabledd**

Daeth 11 o sylwadau i law; dyma ddisgrifiad cryno ohonynt:

- **Arwyddion gweledol.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr nad yw tudalen 8 yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adlewyrchu'r newidiadau i unrhyw arwyddion dim ysmygu yn ddigonol. Mae'n debygol y bydd y newidiadau i arwyddion yn ei gwneud yn fwy anodd i'r rheini sydd â nam ar eu golwg.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mae'r Llywodraeth wedi nodi'r sylwadau a ddaeth i law. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau i'r gofynion ar gyfer arwyddion dim ysmygu yn golygu bod angen disodli’r arwyddion presennol. Mae'r Rheoliadau drafft yn cadw'r elfen fwyaf arbennig ganolog i'r darpariaethau ar arwyddion dim ysmygu yn Rheoliadau 2007, sef y sigarét yn cael ei danio mewn cylch â llinell drwyddo. Bydd y canllawiau'n ymdrin ag awgrymiadau ynghylch maint yr arwyddion mewn amrywiaeth o leoliadau.

**Cwestiwn 28: Mi hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai’r newidiadau a’r gwelliannau i reoliadau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:**

**i) Y cyfleoedd i bobl i ddefnyddio’r Gymraeg**
**ii) Trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na’r Saesneg**

**Beth ydych chi’n credu fyddai’r effeithiau? Sut gellid cynyddu’r effeithiau positif, neu leihau'r effeithiau negatif?**

Daeth 13 o sylwadau i law; dyma ddisgrifiad cryno ohonynt:

- **Ni ddylai’r Rheoliadau effeithio ar y Gymraeg.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai'r Rheoliadau arfaethedig effeithio'n andwyol ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg nac effeithio ar y ffaith bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Rhaid i bob arwydd ac adnoddau fod yn ddwyieithog.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr na ddylai'r Rheoliadau effeithio ar y Gymraeg ar yr amod bod yr holl adnoddau ac arwyddion yn ddwyieithog.

**Cwestiwn 29: Eglurwch hefyd sut yr ydych chi’n credu y gellid llunio’r polisi arfaethedig neu ei newid i gael:**

**i) Effeithiau positif neu gynyddu’r effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na’r Saesneg**
**ii) Dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na’r Saesneg**

Daeth 7 o sylwadau i law; dyma ddisgrifiad cryno ohonynt:

- **Cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.** Dywedodd nifer o’r ymatebwyr petai testun ysgrifenedig penodol yn ofyniad ar gyfer arwyddion, y gallai hyn roi mwy o sylw i'r Gymraeg gan y byddai pob arwydd yn ddwyieithog ac yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**Ymateb y Llywodraeth**

Bydd canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Rheoliadau drafft hyn yn cael eu llunio'n ddwyieithog yn Gymraeg-Saesneg. Bydd angen sicrhau bod pob rhybudd ysgrifenedig a ragnodir yn ddwyieithog yn Gymraeg-Saesneg. Ni fydd angen disodli arwyddion dim ysmygu presennol mewn safleoedd di-fwg caeedig a sylweddol gaeedig a all gynnwys testun Cymraeg.